# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE
Park Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

Clwydian Range and Dee Valley AONB
Loggerheads Country Park, Nr. Mold, Denbighshire CH7 5LH

**Ffon | Tel:** 01352 810614 | **Ffacs | Fax:** 01352 810644
**E-bost | E-mail:** clwydianrangeanddeevalley@denbighshire.gov.uk
**Gwefan:** www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/
**Web:** www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/

www.facebook.com/Clwydian Range & Dee Valley AONB
@Clwyd_Dee_AONB

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | Dyddiad: | Dydd Gwener, 12 Mawrth 2021 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | Ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Dydd Gwener, 19 Mawrth 2021** am **10.00 am** yn **Cynhadledd Fideo**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 CYFLWYNIAD, YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

**2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11.9.20 11 MEDI 2020** (Tudalennau 3 - 8)

Ystyried cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd 11 Medi 2020 (copi ynghlwm).

**3 COFNODION DRAFFT CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 19 CHWEFROR 2021** (Tudalennau 9 - 16)

Nodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2021 (copi ynghlwm).

**4 DIWEDDARIAD AR GYLLID Y CYDBWYLLGOR** (Tudalennau 17 - 20)

Adroddiad Eitem Sefydlog (copi ynghlwm) a gyflwynir gan Steve Gadd - Pennaeth Cyllid ac Eiddo a Paula O'Hanlon - Senior Finance – Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd.

## 5 DIWEDDARIAD MAES:

- **PROSIECT PARC POCED WENFFRWD A MOEL FAMAU (Llafar) (DS)**
- **SMS A PHWYSAU YMWELWYR YN YSTOD COVID (Llafar) (RJ)**
- **EIN TIRLUN DARLUNIADWY (Llafar) (KT)**
- **PROSIECT RHOSTIR (Llafar) (GB)**

## 6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 21 - 24)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol diwygiedig (copi ynghlwm)

## 7 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Derek Butler
Bobby Feeley
Hugh Jones
David Kelly
Carolyn Thomas
Tony Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**CYDBWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ddydd Gwener, 11 Medi 2020 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Bobby Feeley a'r Cynghorydd Tony Thomas (Cyngor Sir Ddinbych)
Y Cynghorydd Carolyn Thomas a'r Cynghorydd Derek Butler (Cyngor Sir y Fflint) a'r Cynghorydd David Kelly (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**HEFYD YN BRESENNOL**

Steve Gadd (Pennaeth Cyllid ac Eiddo CSDd), Lisa Jones (Dirprwy Swyddog Monitro CSDd), Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE), David Shiel (Swyddog AHNE Cynorthwyol), Karen Weaver (Cydlynydd AHNE), Tom Woodall (CSFf), Anna Irwin (Uwch Swyddog Cadwraeth a'r Amgylchedd CBSW) ac Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru).

**1 CYFLWYNIAD, YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Hugh Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Huw Rees (Rheolwr Cefn Gwlad a Threftadaeth).

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

**2 COFNODION Y CYD-BWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 21.11.19**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd 21 Tachwedd 2019. Cytunwyd eu bod yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

***PENDERFYNWYD bod cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd 21 Tachwedd 2019 yn cael eu cymeradwyo.***

**3 COFNODION DRAFFT PARTNERIAETH AHNE 14.2.20**

Darparwyd cofnodion drafft cyfarfod Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2020 er gwybodaeth.

<u>Materion yn Codi.</u>

Eitem Rhif 4, Tudalen 9:

- Adolygiad Gwasanaethau Corfforaethol CSDd. Roedd rôl y Swyddog Cyfathrebu wedi'i hadolygu a'i hailysgrifennu fel Cydlynydd AHNE.

- Tirweddau Dynodedig – arian cyfalaf ychwanegol. Roedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi ennill y cais i gynnal y Fforwm Tirweddau Dynodedig ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru.

***PENDERFYNWYD bod cofnodion drafft cyfarfod Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cael eu derbyn.***

## 4 DATGANIAD BLYNYDDOL Y CYD-BWYLLGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo, Steve Gadd, yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) gan dynnu sylw at yr agweddau canlynol:

- crynodeb o'r sefyllfa ariannol derfynol;
- Datganiad Statudol (roedd angen cytundeb a llofnodion o'r cyfarfod) a
- chyllideb ddrafft i'w chymeradwyo ar gyfer 2021 (wedi'i gohirio oherwydd bod cyfarfodydd wedi'u canslo o ganlyniad i Covid-19).

Ni wnaeth datganiad y Prif Swyddog Cyllid (tudalen 16) amlygu unrhyw newid i gyfraniadau gan naill ai Cyngor Sir y Fflint neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac roedd lefel y grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi parhau yn gyson â 2019/20.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cronfeydd Wrth Gefn a ddangoswyd ar y fantolen o £315,000 yn cynnwys arian a gafodd ei ddyrannu i brosiectau penodol. Yr union falans a oedd ar gael i gefnogi cyllideb 2020/21 a rheoli risg darparu prosiectau yn y dyfodol oedd £47,000.

Roedd Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar gyllid Awdurdodau Lleol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai pecyn ariannol ar gyfer gweddill y flwyddyn (manylion heb eu cyhoeddi eto), yn ychwanegol at gyllid *ad hoc* a gafwyd hyd yma. Ni ellid cadarnhau cyfraniadau'r dyfodol i gyllid Pwyllgor yr AHNE.

Roedd y Cyfrifon Rheoli ar gyfer y Sefyllfa Derfynol (tudalen 19 a 20) yn dangos:

I. bod grantiau wedi cael eu derbyn;
II. bod mwy o wariant wedi bod a
III. bod cyfraniadau wedi'u defnyddio o gronfeydd wrth gefn.

Roedd y Gyllideb Ddrafft Graidd (atodiad 2) yn dangos bod y costau cyflogaeth yn dal i fod yn gyson. Bu cynnydd o ran y Grant Datblygu Cynaliadwy a rhywfaint o gynnydd o ran gwariant ond dim byd a oedd yn codi unrhyw bryderon.

Mae'r Fantolen (tudalen 24) yn adlewyrchu holl gronfeydd wrth gefn yr AHNE – gwerth net £315,000 – roedd atodiad 4 yn egluro sut roeddent yn cael eu hariannu.

Roedd angen i'r Datganiad (Statudol) Blynyddol gael ei gymeradwyo gan adolygiad archwilio mewnol ac allanol. Oherwydd yr oedi (a achoswyd gan gyfnod clo Covid-19), roedd y datganiad wedi bod yn destun adolygiad rhagarweiniol gan Archwilio Cymru a byddai'n cael ei anfon i gael ei gymeradwyo ganddynt ar ôl cael cytundeb gan y Cydbwyllgor y diwrnod hwnnw.

Bu rhai diwygiadau i'r datganiadau blynyddol yn dilyn cyngor gan Archwilio Mewnol:

- Datganiad 1 – testun ychwanegol – "Due to Covid 19 the meeting to approve the annual return has been delayed until the 11 September. If approved this will enable WAO to sign off the Accounts by the statutory deadline of 15 September."
- Datganiad 5 – testun ychwanegol – "The Internal Audit report highlighted the need for a formal risk register to be brought together which will be undertaken during the current financial year."

*[gweithredu, Paula O'Hanlon, Howard Sutcliffe a Steve Gadd i gyfarfod i lunio rhestr o risgiau ar gyfer y gofrestr ar gyfer cyfarfod nesaf Cydbwyllgor yr AHNE]*

***PENDERFYNWYD bod Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn:***

***I. nodi sefyllfa ariannol derfynol 2019/20 (Atodiad 1);***
***II. cymeradwyo cyllideb ddrafft 2020/21 yn ffurfiol (atodiad 2);***
***III. adolygu ac awdurdodi'r Datganiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 (Atodiad 3) a***
***IV. nodi Balansau'r Gronfa Wrth Gefn ar 31 Mawrth 2020 (Atodiad 4).***

## 5 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR Y CYNLLUN RHEOLI

Dywedodd Rheolwr Ardal yr AHNE, David Shiel, wrth y Pwyllgor fod JBA Consultancy wedi'u penodi cyn y cyfnod clo ac roeddent wedi cynnal ymarfer mapio Budd-ddeiliad er mwyn sicrhau ymgysylltiad â chynifer ag sy'n bosibl o bobl wrth gynhyrchu'r cynllun. Roedd holiadur dechreuol wedi'i anfon i'r Bartneriaeth a'r Cydbwyllgor er mwyn cytuno ar gwmpas yr adolygiad.

Roeddent yn ceisio canfod ffyrdd o gynnal ymgynghoriad ystyrlon dan gyfyngiadau'r pandemig ac roeddent ar fin anfon holiadur Survey Monkey am nodweddion allweddol yr AHNE i gael barn o ran pa faterion ehangach allai fod o ran y bartneriaeth budd-ddeiliad gyfan yn ogystal â'i atodi i'r wefan.

Rhagwelwyd y byddai cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynnal i gynorthwyo ag amcanion y cynllun a gosod polisïau. Y bwriad oedd y byddai'r rhain yn gyfarfodydd wyneb i wyneb / gweithdai â thema'n ymwneud ag elfennau allweddol:

- y cynllun rheoli;
- yr amgylchedd hanesyddol;
- yr amgylchedd naturiol;
- rheoli tir a
- thwristiaeth/hamdden.

Fodd bynnag, mae'r newid o ran canllawiau a chyfyngiadau LlC o ran pobl yn cwrdd yn golygu y byddai'r rhain yn gyfarfodydd ar-lein mae'n debyg – tua mis Hydref. Byddai amserlen o'r digwyddiadau ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn cael ei dosbarthu cyn gynted ag y byddai ar gael.

***PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.***

## 6 ADRODDIAD CYNLLUNIO BLYNYDDOL 2019-20

Cyflwynodd y Swyddog AHNE, Howard Sutcliffe, yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) gan amlygu'r cydweithredu rhagorol rhwng yr awdurdodau lleol a'u gwelodd yn cyflawni canllaw cynllunio atodol (CCA) eisoes ac roeddent yn gobeithio cael CCA pellach ar ardaloedd Awyr Dywyll.

Roedd yr adroddiad yn dangos bod mwyafrif y ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo - 87% gyda 83% o'r rheini lle roedd naill ai'r Awdurdodau Lleol yn cymryd rhan, neu â sylwadau'r AHNE.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

- Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, roedd ôl-groniad sylweddol o geisiadau cynllunio;
- Roedd pwysau cynyddol ar gyfer ynni cynaliadwy, sy'n gweld nifer fawr o geisiadau;
- Holwyd am gymeradwyo caniatâd cynllunio ar ardaloedd gorlifdir a chlywyd bod gwahanol gategorïau o ran gorlifdir – gallai rhai categorïau liniaru risg trwy gymryd camau perthnasol;
- Nodwyd y cynnydd o ran ceisiadau twristiaeth, yn enwedig cabanau gwersylla / podiau. Weithiau, mae aelodau Cydbwyllgor yr AHNE sydd hefyd ar eu pwyllgorau cynllunio eu hunain yn teimlo bod gwrthdaro buddiannau. Gwnaethant holi a allai Cydbwyllgor yr AHNE gael polisi/rheol i arwain ar faterion o'r fath?
- Gofynnwyd i adolygiad gael ei gynnal ar draws y 3 awdurdod lleol i edrych ar effaith gynyddol twristiaeth a datblygiad ar yr AHNE ac
- Amlygwyd bod rhai preswylwyr yn poeni am ehangu posibl yr AHNE, ond byddai'r gyfradd gymeradwyo 87% ar gyfer cynllunio yn dangos nad oedd sail i'w hofnau.

Awgrymodd Swyddog yr AHNE y gellid diwygio CCA yr AHNE o ran cabanau gwersylla/podiau, ond i ddechrau roedd angen dealltwriaeth o ran beth oedd yn digwydd eisoes o ran y rhain.

***PENDERFYNWYD:***

I. ***Bod gwybodaeth yn cael ei chasglu am leoliad a chroniad llety gan gynnwys carafanau, cabanau gwersylla/podiau yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam;***
II. ***Bod y polisi presennol o ran carafanau, cabanau gwersylla/podiau ym mhob Awdurdod Lleol a'r***
III. ***Adroddiad Cynllunio Blynyddol yn cael eu nodi.***

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog AHNE raglen gwaith i'r dyfodol Cydbwyllgor yr AHNE (a ddosbarthwyd eisoes). Eglurodd fod Cadeiryddion y pum gweithgor, y Bartneriaeth a'r Cydbwyllgor wedi cael cyfarfod dros y we yn ystod y cyfnod clo, a oedd wedi gweithio'n dda. Rhagwelwyd y byddai'r cyfarfodydd hynny yn parhau yn yr un fformat wrth symud ymlaen.

Pe bai cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i gael eu llacio, gobeithiwyd y byddai grwpiau bach yn gallu cwrdd ar ddiwedd mis Hydref i edrych ar y gwaith ym Mhlas Newydd gydag Ein Tirlun Darluniadwy.

Dywedodd y Swyddog AHNE wrth y Pwyllgor:

- Roedd Scottish Power wedi tynnu'r llinellau a'r polion a oedd yn arwain at eu hen orsaf bŵer ar gyrion yr Heneb Gofrestredig ar Foel Hiraddug.
- Roedd deiliaid diawdurdod wedi achosi rhywfaint o ddifrod ar Glawdd Offa yn y Waun – roedd CADW wedi ymyrryd i atal difrod pellach.
- Roedd 35 erw o dir wedi'i brynu fel rhan o'r brif llwybr i fyny at Dinas Brân, a gaiff ei adnabod yn lleol fel 'the pancake'.
- Roedd gwaith yn cael ei wneud gyda Swyddog Landmap newydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar ganllawiau datblygu o ran Newid Hinsawdd.

Trafododd y Pwyllgor effaith pwysau cynyddol ymwelwyr ar yr AHNE, yn enwedig o ran parcio, cyfleusterau toiled a sbwriel. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o gyllid i edrych ar dagfeydd a byddai gweinidog yn cwrdd â Chadeirydd y Cydbwyllgor ym Moel Famau y dydd Llun canlynol i drafod ymhellach. Roedd angen rheoli gormodedd o dwristiaeth ac roedd angen sicrhau bod y safleoedd ymwelwyr a oedd yn dirweddau gwarchodedig yn addas i'r diben – twristiaeth gynaliadwy. Cytunwyd i ailedrych ar y Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy.

Roedd y tîm AHNE wedi bod yn adolygu dau enwebiad ar gyfer Gwobr yr AHNE – Grŵp Celf Llanferres a oedd yn defnyddio Loggerheads fel eu canolbwynt ac a oedd yn cynnal arddangosiadau cyhoeddus yn Loggerheads, ac Ysgol Gynradd Cilcain (Ysgol Y Foel) yn Sir y Fflint, a oedd yn gweithio i fod yn Garbon Niwtral.

***PENDERFYNWYD:***

I. ***Bod y Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy yn cael ei hadolygu a***
II. ***Bod rhaglen gwaith i'r dyfodol Cydbwyllgor yr AHNE yn cael ei nodi.***
III. ***Bod y Cydbwyllgor yn nodi derbynnydd arfaethedig Gwobr yr AHNE.***

## 8 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

13 Tachwedd 2020

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Cyfarfod
# Partneriaeth AHNE
# Dydd Gwener 19 Chwefror 2021
# Am 10am Cyfarfod Teams Ar-lein

**Aelodau Partneriaeth yr AHNE**

**Aelodau Partneriaeth yr AHNE**

Y Cyng. Tony Thomas CSDd
**Cadeirydd y Cydbwyllgor**
Y Cynghorydd Christine Marston CSDd
Y Cynghorydd Martyn Holland CSDd
Y Cynghorydd Hugh Jones CBSW
Y Cynghorydd Sonia Benbow-Jones CBSW
Y Cynghorydd Frank Hemmings CBSW
Y Cynghorydd Paul Cunningham CSyFf
**Is-Gadeirydd y Bartneriaeth**

Cadeirydd y Bartneriaeth AHNE
Andrew Worthington OBE

Cynrychiolwyr Buddion Gwledig
Christine Evans, Roger Cragg

Cynrychiolydd Buddion Busnes
Dewi Davies

Cynrychiolydd Diddordeb Tirwedd
Michael Skuse

Cynrychiolydd Buddion Hanesyddol
Tony King

Cynrychiolwyr Buddion Trefol
Ian Papworth, Rajan Madhhok,

Cynrychiolydd yr Amgylchedd Naturiol
Les Starling, David Davies

Cynrychiolwyr Rheoli Tir
Sandy Archdale, Huw Morgan,

Cynrychioli Hamdden a ROW
John Roberts

**Yn Bresennol**

AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Howard Sutcliffe Swyddog AHNE
David Shiel Rheolwr Ardal yr AHNE
Karen Weaver Cydlynydd AHNE
Ceri Lloyd Swyddog CDC AHNE
Kate Thomson Swyddog Partneriaeth OPL
Rachel Jones Uwch Geidwad AHNE (Gogledd)
Rachel Jones Uwch Geidwad AHNE (De)
Graham Berry Swyddog Maes Rhostir
Paul Williams Rheolwr Safle Plas Newydd
Tony Hughes Swyddog Cynllunio AHNE

Yn cynrychioli Cyngor Sir y Fflint:
Tom Woodall Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad CSFf a Gwella Hawliau Tramwy

Yn cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru
Alun Price

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Allan Forrest, Cynghorydd Colin Legg, Del Roberts-Jones, Huw Rees, Phil Durrell, Rhian Peirce,
Y Cynghorydd Owen Thomas

1. **Croeso**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd aelodau i gyfarfod cyntaf ar-lein y Bartneriaeth.

2. **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Covid**

Eglurodd y Rheolwr Ardal AHNE, David Shield heblaw am y Tîm Ceidwad roedd holl staff yn parhau i weithio gartref. Roedd staff y Tîm Ceidwad wedi'i ddyblu dros benwythnosau. Roeddent yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda'r heddlu.

Roedd y safleoedd wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod cyfnod y Nadolig, dilynwyd hyn gan eira ac roedd yna eto gynnydd mewn ymwelwyr. Yn ystod cyfnod clo cenedlaethol roedd hyn yn annerbyniol. Roedd y ffordd i fyny i Moel Famau wedi cau, ac roedd yr heddlu yn goruchwylio yma. Roedd y ffordd bellach wedi ailagor ar gyfer mynediad i'r bobl leol oedd yn byw yno. Roedd arwyddion wedi eu gosod i hysbysu bod y meysydd parcio yn parhau ynghau. Roedd negeseuon allweddol ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu.
Disgwylir y byddai'r safleoedd yn brysur dros wyliau'r Pasg, ac roedd y Tîm nawr yn paratoi ar gyfer hyn.

Roedd trafodaeth wedi'i chynnal am allu'r meysydd parcio a sut y gallai ymwelwyr gael eu dargyfeirio i ardaloedd eraill o'r AHNE. Mynegwyd pryder mewn rhai ardaloedd bod y ffyrdd yn gul iawn ac nad oedd y seilwaith yn ei le i ymdopi gyda niferoedd mawr. Roedd ymwelwyr sy'n mynd ar goll yng Nghefn Gwlad hefyd wedi'i godi gyda'r disgwyl y byddai tirfeddianwyr gyda thractorau yn eu cynorthwyo os byddent yn mynd yn sownd. Cynigiwyd y posibilrwydd o arwyddion i'w hysbysu pan fydd y meysydd parcio yn llawn.

Dywedodd y Rheolwr Ardal AHNE am Raglen Adferiad Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Roedd cyllid ar gael i fuddsoddi mewn twristiaeth gynaliadwy, ac i gymryd i ystyriaeth y nifer cynyddol o ymwelwyr yn ymweld â'r safleoedd a pharciau. Roedd capasiti meysydd parcio Moel Famau yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
Roedd hwn yn brosiect ar y cyd gydag Adran Briffyrdd CSDd. Roedd adroddiad wedi'i gomisiynu ac yn ystod y misoedd nesaf dylai rhywfaint o waith cyfalaf ddechrau.

Cydnabuwyd nad oedd gwasgariad pwysau ymwelwyr ledled yr AHNE bob amser yn rhwydd a bod yr AHNE wedi cyflwyno cais arall i Lywodraeth Cymru i ystyried sut y gellir lledaenu pwysau ymwelwyr o amgylch yr AHNE, byddai meysydd parcio yn cael eu hystyried hefyd. Gobeithio y byddai hyn yn cael ei symud ymlaen o fewn y deuddeg mis nesaf os byddai cais am arian yn llwyddiannus. Roedd yr heddlu wedi dweud fod y rhan fwyaf o ymwelwyr oedd wedi torri'r rheol teithio drwy ymweld â safleoedd o ardaloedd lleol.
Dywedodd y Cyng. Martyn Holland fod Moel Famau yn rhan allweddol o'i ward a'i fod yn ddiolchgar iawn i David a'r Tîm Ceidwadwyr, yr Heddlu a'r Tîm Gorfodi. Roedd popeth wedi cael ei reoli'n dda.

3. **Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Swyddog yr AHNE**

<u>Aelodaeth y Bartneriaeth</u>

Dywedodd Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE ei fod ar hyn o bryd yn adolygu aelodaeth y Bartneriaeth a gofynnodd a fyddai aelodau yn cadarnhau a oeddent yn fodlon ac yn gallu parhau â'u haelodaeth. Hefyd os byddent yn gwybod am unrhyw un a fyddai'n addas ar gyfer aelodaeth yna byddai'n ddiolchgar i dderbyn manylion.
Cam Gweithredu
Byddai'r Swyddog Cydlynu yn anfon e-bost at holl aelodau i holi a fyddent yn fodlon parhau i wasanaethu ar y Bartneriaeth.

<u>Canllawiau Dylunio Priffyrdd</u>

Cyfeiriodd y Swyddog AHNE at Ganllaw Dylunio Priffyrdd AHNE Dyffryn Gwy (dosbarthwyd yn flaenorol) ac eglurodd fod angen protocol tebyg i sicrhau yr ymgynghorwyd â'r AHNE ar ddylunio prifordd, gan fod yna ddiffyg gweithio mewn partneriaeth. Byddai hyn yn cael ei argymell yn y cyfarfod Cyd-Bwyllgor nesaf. Er enghraifft, roedd biniau halen melyn wedi eu dosbarthu ledled Sir Ddinbych mewn ardaloedd anaddas, gyda rhai yn weladwy o frig Bwlch yr Oernant. Enghraifft arall oedd llinellau melyn dwbl trwychus o fewn yr AHNE.
Cafwyd trafodaeth. Dywedodd y Cyng Martyn Holland fod y biniau wedi eu dosbarthu i leihau'r pwysau ar gerbydau graeanu, a nodwyd y byddai biniau gwyrdd neu frown wedi bod yn well. Teimlwyd y byddai arwyddion 'ffyrdd clir' neu 'barth parcio cyfyngedig' yn gallu cael eu defnyddio yn yr AHNE yn hytrach na llinellau melyn dwbl. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod pobl fel petaent yn rhoi mwy o ystyriaeth i linellau melyn dwbl.
Cam Gweithredu

- Roedd y Cadeirydd yn cynnig fod GrŴp Tasg a Gorffen yn cael ei drefnu i ystyried Dylunio Priffyrdd fel mater unwaith yn unig.
- Gofynnwyd i unrhyw aelodau fyddai'n dymuno bod yn rhan o'r grŴp i gysylltu â Karen.

Coed Ynn
Roedd aelod yn holi am symud coed ynn yn yr ardal rhwng ardal Dyserth a Lloc a'r effaith oedd hyn wedi'i gael ar y golygfeydd o'r Gop. Cafwyd trafodaeth a theimlwyd y dylai unrhyw goed oedd wedi eu torri gael eu disodli gyda rhywogaeth gynhenid amgen addas. Dylid rhoi ystyriaeth i sut y gellid eu disodli. Dywedodd Rheolwr Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir y Fflint, Tom Woodall fod y coed wedi eu symud ar gyfer diogelwch ar y priffyrdd, a dyna pam nad oedd y gwaith yn rhan o ymgynghoriad. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth i'r gwedd coed ac roedd gan CSFf Gynllun Coetir, ond roedd yn rhaid i'r ffocws presennol gynnwys perygl y coed oedd yn cynnwys clefyd ac yn marw.

| | |
|---|---|
| Dinas Brân | Derbyniwyd 30 erw o dir, roedd Rhun Jones yn drafftio Cynllun Rheoli ar hyn o bryd. |
| Gwaith Trin yn Nhraphont DdŴr Pontcysyllte | Roedd cyfarfod wedi'i gynnal gydag aelodau arweiniol DŴr Cymru, ac roedd dewisiadau tirlun yn cael eu hystyried ar gyfer y safle. |
| Cymdeithas Genedlaethol AHNE | Roedd Cymdeithas Genedlaethol AHNE yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion arweiniol. Roedd Ian Rappel wedi cynnal cyfarfodydd timau ehangach AHNE bob pedair wythnos. |
| Grid Cenedlaethol | Byddai yna rownd arall o gyllid.<br>A hefyd y Fenter Gwella Tirlun (MGT). |
| Cynllun Rheoli | Roedd yna rai anawsterau wedi bod gyda'r ymgynghoriadau. Cytunwyd ar gynllun y strwythur, ac roedd data yn cael ei gasglu ar gyfer adroddiad cyflwr yr AHNE. |

Adolygiad Cydraddoldeb Rhwng Parciau Cenedlaethol ac AHNE
Dywedodd y Swyddog AHNE fod 425k wedi'i ddarparu ar gyfer cydweithio gyda'r Parciau Cenedlaethol. Roedd GrŴp Amddiffyn Tirluniau Cymru hefyd wedi cael ei sefydlu. Nid oedd y gyllideb flynyddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi'i rhyddhau hyd yma.

**4. Cynnydd y Prosiect Awyr Dywyll**

Dywedodd David Shiel, Rheolwr Ardal AHNE fod y prosiect wedi'i ohirio oherwydd Covid. Roedd y Canllaw Cynllunio Atodol drafft wedi'i gwblhau a chytunwyd gan y tri Awdurdod Lleol. Byddai'r drafft nawr yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgorau cynllunio i ddechrau ar y broses ymgynghori.

| | |
|---|---|
| Canllaw Cyflym Awyr Dywyll | Roedd canllaw cyflym awyr dywyll wedi'i gwblhau oedd yn cynnwys cyngor defnyddiol ar gyfer goleuo.<br>Byddai'r ddogfen hon yn cyfannu'r CCA. |
| Monitro Awyr Dywyll | Byddai monitro awyr dywyll yn dechrau'n fuan a byddai'r canlyniadau yn cael eu cynnwys yn adroddiad Awyr Dywyll Cymru. |
| Gŵyl Awyr Dywyll | Roedd holl ddigwyddiadau yn cael eu cynnal ar-lein. Roedd ffotograffiaeth Astro yn arddangos ansawdd yr awyr ynghyd â ffilmiau amser. |
| Goleuo yn Loggerheads | Roedd cyllid wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i addasu goleuadau yn Loggerheads. Drwy weithio mewn partneriaeth gyda CSDd byddai'r goleuadau i gyd yn cael eu newid ac yn cynnwys synwyryddion symud.<br>Roedd hwn yn brosiect peilot ar gyfer AHNE a Pharciau Cenedlaethol eraill. |
| Cenedl Awyr Dywyll | Roedd Awyr Dywyll Cymru wedi cysylltu â Croeso Cymru ynglŷn â Chymru yn dod yn Genedl Awyr Dywyll. Fodd bynnag, y flaenoriaeth bresennol oedd i'r AHNE gyflawni 'Statws Cymuned Awyr Dywyll'. |

Roedd trafodaeth yn cael ei chynnal a chodwyd sut y dylid rhoi sylw i dai presennol gyda golau sylweddol, cytunwyd fod hyn yn her, fodd bynnag, gobeithio drwy newid y goleuadau yn Loggerheads y byddai hyn yn newid meddylfryd y sawl sy'n gyfrifol. Nodwyd, fodd bynnag, bod golau cyfeillgar i awyr dywyll ar hyn o bryd yn anodd dod o hyd iddo a'i brynu ac roedd hyn yn anhawster arall.
Codwyd y posibilrwydd o gyflwyno'r canllawiau goleuadau i ardaloedd y tu allan i ffin yr AHNE, ac eglurwyd bod yr AHNE yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r tri Awdurdod Lleol a gobeithio y byddai hyn yn arwain at gynnydd.

**5. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect**

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan:

<u>Plas Newydd</u>
<u>Amser Cynllunio a Pharatoi</u>
Dywedodd Rheolwr Safle, Plas Newydd, Paul Williams fod y giatiau a'r tir wedi cael eu gadael yn agored er mwyn i bobl leol gael ymarfer yn ddyddiol a'u bod nawr yn cynllunio ar gyfer y tymor i ddod ac roeddent yn gobeithio agor o'r Pasg ymlaen. Roedd asesiadau risg yn cael eu cwblhau ac roedd cyllid wedi'i gyflwyno ar gyfer treial awdio. Roedd cwmnïau teithio wedi dechrau cysylltu, ac roedd yna obaith y byddai yna dymor.

<u>Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC)</u>
Dywedodd Ceri Lloyd, Swyddog CDC ei bod nawr yn cau prosiectau 2020 i lawr, ac roedd 18 o brosiectau wedi eu cefnogi. Byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei ddrafftio yn fuan. Roedd y rhan fwyaf o brosiectau wedi eu heffeithio gan Covid. Fodd bynnag, un prosiect yn unig oedd wedi methu gwneud unrhyw gynnydd. Roedd proses datganiadau o ddiddordeb 2021 nawr ar y gweill. Roedd trafodaeth wedi'i chynnal a mynegwyd pryder am ddeilliant ar gyfer prosiect yn methu yn sgil Covid, a pha un a fyddai ei gyllid yn parhau. Eglurwyd mai cyllid ar gyfer un prosiect yn unig oedd wedi'i dynnu'n ôl ac ni fu'n bosibl cynnal gweithgareddau arfaethedig. Roedd y Swyddog CDC wedi gweithio'n agos gydag ymgeiswyr prosiect ac roedd pob un o'r prosiectau wedi gallu cyflawni disgwyliadau. Fodd bynnag, os oedd yna bryder, byddai telerau'r llythyr cymeradwyo yn cynnwys hynny.



DRAFT

Bwriedir i achosion busnes hirdymor gael eu hystyried ar gyfer rhai prosiectau. Roedd Roger Cragg, Cadeirydd y GrŴp CDC, wedi sicrhau aelodau bod pob cais yn cael ei ystyried yn drwyadl ac roedd yn canmol ei gydweithwyr am eu sylw i fanylder a safon uchel o drafodaeth.

Cam Gweithredu

Prosesau CDC i gael eu hychwanegu at raglen cyfarfod nesaf y gweithgor.

<u>AHNE y Gogledd</u>

Roedd Rachel Jones, Uwch Geidwad AHNE y Gogledd wedi cwblhau diweddariad ar rai o'r prosiectau ar y gweill:

| | |
|---|---|
| Prosiect Pori SMS | Roedd y prosiect wedi ei chael hi'n anodd gyda'r sefyllfa Covid, roedd pori ar safleoedd a gwaith cynefin wedi bod yn llwyddiannus. Yn gweithio ar ymgysylltu â'r gymuned ar hyn o bryd, clirio prysgwydd. Roedd Belted Galloways yn pori ar safle ym Mhrestatyn a bu ceffylau'r Carneddau yn pori ar y twyni ac roeddent nawr ym Moel Findeg. Roedd defaid Soay wedi bod yn pori ar Lannerch Bili Pala yn Loggerheads.<br>Byddai sesiynau ffeltin coed yn cael eu cynnal gydag ysgolion. |
| Llifogydd Loggerheads Flood | Roedd y Loggerheads wedi dioddef llifogydd unwaith eto. Fodd bynnag, nid oedd yna lawer o ddifrod oherwydd gwaith blaenorol a wnaed.<br>Roedd yr ardal nawr yn sychu. |
| Llwybr Clawdd Offa 50 Mlynedd | Roedd y digwyddiad 50 mlynedd ym mis Gorffennaf ond roedd yr holl gynlluniau wedi eu hatal ar hyn o bryd. Roedd disgiau '50 mlynedd' yn cael eu gosod ar hyd y llwybr. |
| Cais Adferiad Gwyrdd | Roedd y cais ar gyfer gwaith mynediad yn Loggerheads a Moel Findeg – byddai'r llwybrau a'r giatiau yn cael eu newid. |

Roedd trafodaeth yn cael ei chynnal pa un a oedd ceffylau Carneddau yn cynnwys sglodyn, eglurwyd fod y ceffylau yn rhannol fferal a byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach.

<u>AHNE y De</u>

Rhoddodd Uwch Geidwad AHNE y De, Rhun Jones ddiweddariad byr ar rai o'r prosiectau a gwblhawyd yn ne'r AHNE.

| | |
|---|---|
| Caer Drewyn | Roedd gwaith clirio eithin yn cael ei gwblhau mewn partneriaeth gyda PONT yng Nghaer Drewyn. |
| Wenfrwyd | Roedd Rhun a'r tîm wedi bod yn gwneud gwaith trawsnewid yr hen safle tirlenwi i barc bach, roedd llwybrau yn cael eu gosod gyda chysylltiadau i lwybrau Llangollen a WHS yn cael eu agor yn llwyr. Byddai yna le parcio i 35 o geir, gobeithio y byddai'r safle wedi agor ar gyfer y Pasg. |

<u>Ein Tirlun Darluniadwy</u>

Dywedodd Kate Thomson, Swyddog Partneriaeth ETD fod y misoedd diwethaf wedi bod yn heriol iawn, roedd Hannah Marubbi yn llenwi dyletswyddau Sallyanne Hall oedd ar gyfnod mamolaeth, ac roedd wedi setlo i mewn yn dda yn y rôl. Roedd cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r Loteri Treftadaeth i ystyried allbynnau y prosiect. Nid oedd gwirfoddoli a digwyddiadau wedi digwydd, fodd bynnag, roedd rhai prosiectau wedi parhau i symud ymlaen (gweler cyflwyniad).

| | |
|---|---|
| Digwyddiad Dinas Brân | Gobeithio y byddai'r digwyddiad yn Ninas Brân yn cael ei |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | gynnal eleni os yn bosibl. |
| Swydd Artist mewn Swydd | Roedd tri deg o ymgeiswyr wedi ymgeisio am y swydd. |
| pwmp 'ram' a thai ym Mhlas Newydd | Roedd 50 mlynedd o lystyfiant wedi'i ddadorchuddio, roedd yna lawer o ymgysylltu â'r gymuned a sylw yn y cyfryngau cymdeithasol. |
| Parc Wenfrwyd | Roedd gwaith yn cael ei gwblhau ar lwybrau yn y Parc. |
| Rheoli Coetir STB | Roedd angen trwyddedau torri coed, roedd yn broblem i weithwyr coedwigaeth i fod ar y safle, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid cwblhau'r gwaith yn ystod yr hydref. |

Prosiect Rhostir

Eglurodd y Swyddog Rhostir, Graham Berry ei fod wedi'i benodi ar gyfer y prosiect tair blynedd yn dilyn tân rhostir Llantysilio, a fod ei rôl wedi'i rhannu rhwng Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).
Byddai pedwar maes allweddol yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosiect:

| | |
|---|---|
| Lleihau Achosion o Danau Gwyllt | Ymgysylltu gyda thirfeddianwyr a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Roedd canllawiau rheoli rhostir yn cael ei baratoi ynghyd â negeseuon cyfryngau cymdeithasol. |
| Ymgysylltu â'r Gymuned | Ailgysylltu cymunedau gyda'r rhostiroedd. |
| Rhaglen adfer Llantysilio | Byddai 1ha o rug yn cael ei dorri a'i gasglu ym mis Mawrth i'w gludo mewn hofrennydd i'r safle o'r mynydd a ddifrodwyd gan dân ble byddai'n cael ei wasgau i leihau erydu pridd a chreu amodau ar gyfer ail-gytrefu. Bydd cymysgedd hadau gwair ucheldir hefyd yn cael ei hadu ar 68ha. |
| Cyllid cynaliadwy ar gyfer rheoli rhostir | Byddai rheoli cynaliadwy yn cael ei ystyried |

**Unrhyw Fater Arall**

Lloches Mawr

Roedd y Cynghorydd Martyn Holland yn mynegi pryderon am dorri coed ar raddfa fawr yn y Lloches Mawr, Llanarmon yn Iâl.

Cam Gweithredu

Y Swyddog AHNE i gysylltu â chynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru i'w gwahodd i fynychu cyfarfod nesaf Gweithgor Cymeriad Tirlun ac Amgylchedd Adeiledig.

**Problemau TG**

Roedd rhai aelodau yn parhau i gael anawsterau mynediad i Microsoft Teams.
Eglurwyd mai Teams oedd y platfform ar-lein a ffefrir ar gyfer CSDd a dyma oedd pob plentyn ysgol yn ei ddefnyddio i gwblhau gwersi ar-lein, ac
y dylai fod yn hygyrch iawn. Ni chaniatawyd defnyddio zoom hyd yma.

Cam Gweithredu

Byddai'r Swyddog Cydlynu yn cysylltu ag adran TG CSDd eto ac yn codi'r mater a gofyn am awdurdod i ddefnyddio zoom.



DRAFT

Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (NAAONB)
Dywedodd Ceri Lloyd, Swyddog Datblygu Cynaliadwy fod y Gymdeithas Genedlaethol AHNE yn datblygu platfform gwefan newydd ar hyn o bryd ac y byddai yna Fforwm AHNE Cymru.  Gobeithio y byddai aelodau Partneriaeth yn gallu ymuno mewn rhai agweddau.

**6. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Gwener 28 Mai | 2021 | 10 am | I'w benderfynu |
| Dydd Gwener 15 Hydref | 2021 | 10 am | I'w benderfynu |
| Dydd Gwener 18 Chwefror | 2022 | 10 am | I'w benderfynu |
| Dydd Gwener 20 Mai | 2022 | 10 am | I'w benderfynu |
| Dydd Gwener 14 Hydref | 2022 | 10 am | I'w benderfynu |

DRAFFT

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# CYDBWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Mawrth 2021** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Steve Gadd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Paula O'Hanlon** |
| **Teitl:** | **Sefyllfa Derfynol a Chyfrifon 2020/21** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ar sefyllfa derfynol cyllideb refeniw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer 2020/21.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol amcanol yr AHNE ar 31 Mawrth 2021.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r aelodau nodi rhagolwg diweddaraf y sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2020/21 (Atodiad 1) a'r cynnydd o ran y strategaeth gyllidebol gytunedig.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb o sefyllfa refeniw derfynol amcanol yr AHNE ar gyfer 2020/21 (gweler y manylion yn Atodiad 1). Mae'r sefyllfa refeniw derfynol yn dangos cyfraniad o £11,705 o'r gronfa wrth gefn. Mae £2,614 o'r swm hwn yn cefnogi'r gyllideb refeniw a'r £9,091 arall yn ariannu aelod o staff dros dro rhan-amser drwy grant Llywodraeth Cymru (cronfeydd wedi'u derbyn).

5. **Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

   Bydd rheoli cyllidebau refeniw'r AHNE yn effeithiol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau a gytunwyd arnynt yn y Cynllun Rheoli ar gyfer y flwyddyn bresennol ac yn sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â'n partneriaid cyllido a'n cyd-flaenoriaethau.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

   Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

   *Amherthnasol*

8. **Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

   Mae'r sefyllfa ariannol yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

   Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2020/21.

   Fel y nodir yn y gyllideb, mae yna ofyniad i ariannu gwariant yn defnyddio'r gronfa refeniw wrth gefn. Mae'n debygol y bydd hyn yn oddeutu £2,614 o gymharu â'r ffigwr o £17,288 a gyllidebwyd ar ei gyfer.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

    Mae'r gyllideb yn dibynnu ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newid i lefel yr incwm hwn yn peri risg i gyflawni prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

    Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

**AONB JOINT COMMITTEE** Appendix 1

**(DENBIGHSHIRE, FLINTSHIRE AND WREXHAM COUNCILS)**

**CORE - REVENUE INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT AT 28th FEBRUARY 2021**

| | Budget 2020/21 | Forecast Outturn 2020/21 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **EXPENDITURE** | | |
| Employees | | |
| Salaries | 186,499 | 197,896 |
| Training & Conference | 1,000 | |
| Subscriptions | 3,000 | 3,315 |
| Insurance | 668 | 668 |
| Total Employee costs | 191,167 | 201,879 |
| Vehicle and Travel | | |
| Vehicle Hire | 1,000 | 0 |
| Mileage | 4,250 | 1,500 |
| Use of Public Transport | 200 | 0 |
| Total Vehicle & Travel Expenses | 5,450 | 1,500 |
| Other | | |
| Protective Clothing | 2,000 | 2,423 |
| Management Plan/Prof fees | 2,500 | 2,500 |
| Audit Fees | 1,134 | 1,134 |
| IT / Communication costs | 3,747 | 3,912 |
| Telephones | 500 | 639 |
| Total Other Expenses | 9,881 | 10,608 |
| Projects | | |
| Grants | 95,000 | 95,000 |
| Total Project costs | 95,000 | 95,000 |
| **TOTAL EXPENDITURE** | **301,498** | **308,987** |
| **INCOME** | | |
| NRW CRDV Grant | -107,000 | -107,000 |
| SDF Mgmt fee | -5,000 | -5,000 |
| SDF Grant | -100,000 | -95,000 |
| LA Funding | -80,168 | -80,882 |
| Contributions from Reserve | -9,330 | -11,705 |
| **TOTAL INCOME** | **-301,498** | **-299,587** |
| **Total Net Expenditure** | **0** | **9,400** |

**AONB JOINT COMMITTEE** Appendix 1

**(DENBIGHSHIRE, FLINTSHIRE AND WREXHAM COUNCILS)**

**AREA - REVENUE INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT AT 28TH FEBRUARY 2021**

| | Budget 2020/21 | Forecast Outturn 2020/21 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **EXPENDITURE** | | |
| Employees | | |
| Salaries | 173,961 | 164,969 |
| Training | 0 | |
| Insurance | 626 | 626 |
| Total Employee costs | 174,587 | 165,595 |
| Vehicle and Travel | | |
| Fuel | 3,700 | 2,550 |
| Fleet | 18,530 | 18,530 |
| Travel | 1,500 | 200 |
| Total Vehicle & Travel Expenses | 23,730 | 21,280 |
| Other | | |
| Site Management | 5,000 | 5,000 |
| IT / Communication costs | 4,000 | 4,000 |
| Telephones | 520 | 520 |
| Projects/Activity expenditure | 4,000 | 87 |
| Total Other Expenses | 13,520 | 9,607 |
| **TOTAL EXPENDITURE** | **211,837** | **196,482** |
| **INCOME** | | |
| NRW Forestry Partnership | -19,500 | -19,500 |
| LA funding | -184,379 | -186,382 |
| Contributions from Reserve | -7,958 | 0 |
| **TOTAL INCOME** | **-211,837** | **-205,882** |
| **Total Net Expenditure** | **0** | **-9,400** |

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

| Diweddariad ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2021 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol** | **Cynllun Rheoli Manylion/Camau Gweithredu Cyfeirnod** | **Amserlen** | Amserlen<br>Heb ddechrau neu'n broblem = Coch<br>Ar y trywydd iawn =Oren<br>Cwblhawyd= Gwyrdd | **Cost – negyddol neu + bositif (£ Cost) neu niwtral(Trwy gyllidebau presennol ac allanol)** |
| **Newydd** | **Camau gweithredu diweddaraf** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Costau a Chyllido | **Diweddarwyd 19.3.21** | **2020-21** | | Niwtral |
| Cyllid Craidd AHNE CNC | Aros am rownd newydd o gyllid. *(Derbyniwyd llythyr cadarnhau dros dro)* | 2021-24 | | +positif |
| Cronfa Datblygu Cynaliadwy | **Mae LIC yn parhau i adriannu gyda £100k** | 2021-22 | | +positif |
| **Cynlluniau Strategol 2017-20** | | | | |
| **Cynllun Rheoli'r AHNE** | **Cynhaliodd ymgynghorwyr gyfarfod ymgynghori ar y we ac maent hefyd wedi derbyn dros 300 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Drafft i Gydbwyllgor Mehefin** | **2021-24** | | Niwtral |
| Strategaeth Estyn Allan a Gwirfoddolwyr | **2x Raglen Gwirfoddolwyr wedi'u cyhoeddi'r flwyddyn** | **Gohiriwyd oherwydd Covid** | | Niwtral |
| **Cynllun Twristiaeth AHNE** | **Dan Adolygiad wrth aros am gyllid. Cafwyd peth cyllid oddi wrth LIC** | **SPSP LIC 2021** | | Niwtral |
| **Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol** | | | | |
| Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor | **2 x Cyfarfodydd y cydbwyllgor wedi'u cwblhau Hefyd 2x Gyfarfod Cadeiryddion** | **2020-21** | | Niwtral |
| Cytundeb Cyfreithiol ALI | **ALI wedi cytuno a chadarnhau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf** | **2019-2024** | | Niwtral |
| Fforwm yr AHNE | | **Gohiriwyd oherwydd Covid** | | Niwtral |
| AHNE Cwrdd ag Aelodau | | **Gohiriwyd oherwydd Covid** | | Niwtral |

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

wrexham COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL wrecsam
CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lleol/Cynghorwyr Tref a Chymuned/ Cefnogwyr AHNE | | | | |
| **Parhad ar Ddiweddariad ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2021** | | | | |
| **Prosiect Presennol** | **Cynllun Rheoli Manylion/Camau Gweithredu Cyfeirnod** | **Amserlen** | **Amserlen Heb ddechrau neu'n broblem = Coch Ar y trywydd iawn =Oren Cwblhawyd= Gwyrdd** | **Cost – negyddol neu + bositif neu niwtral** |
| **Newydd** | **Camau gweithredu diweddaraf** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Partneriaeth AHNE** | | | | |
| Cyfarfodydd y Bartneriaeth AHNE Llawn | **Dau gyfarfod o'r Bartneriaeth AHNE. Hefyd 2x Gyfarfod Cadeiryddion** | **2020-21** | | Niwtral |
| Gwobr AHNE | **Dyfarnwyd i Grŵp Celf Ysgol Cilcain a Loggerheads** | **Cyflwyniad i'w gadarnhau** | | Niwtral |
| **Gweithgorau'r Bartneriaeth:** | | | | |
| Tirlun, Cymeriad ac Amgylchedd Adeiledig | **Gweithio ar Gynllun Rheoli'r AHNE** | **Gohiriwyd tan Mawrth 2021 oherwydd Covid** | | +positif |
| Rheoli Tir a'r Amgylchedd Naturiol | **Gweithio ar Gynllun Rheoli'r AHNE** | **Gohiriwyd tan Mawrth 2021 oherwydd Covid** | | +positif |
| Diwylliant, Treftadaeth a Chymunedau | **Gweithio ar Gynllun Rheoli'r AHNE** | **Gohiriwyd tan Mawrth 2021 oherwydd Covid** | | +positif |
| Twristiaeth | **Gweithio ar Gynllun Rheoli'r AHNE** | **Gohiriwyd tan Mawrth 2021 oherwydd Covid** | | +positif |
| Hamdden ac Iechyd | **Gweithio ar Gynllun Rheoli'r AHNE** | **Gohiriwyd tan Mawrth 2021 oherwydd Covid** | | +positif |

| Parhad ar Ddiweddariad ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2021 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol** | **Cynllun Rheoli Manylion/Camau Gweithredu Cyfeirnod** | **Amserlen** | **Amserlen** Heb ddechrau neu'n broblem = Coch Ar y trywydd iawn =Oren Cwblhawyd=Gwyrdd | **Cost – negyddol neu + bositif neu niwtral** |
| **Newydd** | **Camau gweithredu diweddaraf** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Prosiectau Arbennig AHNE** | | | | |
| Cyllid 1 Llywodraeth Cymru: | **Rheoli Ymwelwyr Moel Famau Goleuo Loggerheads £180k** | | | +positif |
| Cyllid 2 Llywodraeth Cymru: | **Newid Hinsawdd Mynediad i ganŵs Milltiroedd Cymunedol Cudd-wybodaeth Ymestyn y Tymor £75k** | **2021-22 Mehefin** | | +positif |
| Cyllid 3 Adfer Gwybodaeth Ddaearyddol Llywodraeth Cymru | **Prosiectau wedi'u Cymeradwyo gan LIC: Wenffrwd, Loggerheads, Moel Findeg, Hen Ardd a Graig Fawr £185,900** | **22021-22 Mehefin** | | +positif |
| Cyllid cyfalaf. 2021-22 i'w gadarnhau | ***Dyrannodd LIC £225k fesul AHNE a phot cyfun o £425k*** | 2021-22 | | +positif |
| Ein Tirlun Prydferth Prosiect Tirwedd | Adroddwyd gan y Swyddog heddiw | 2018-23 | | +positif |
| Prosiect Pori Anifeiliaid | Penodwyd y Cymhorthydd Gwenno Jones i gefnogi'r swyddog arweiniol | 2020-22 | | Niwtral |
| Newid Hinsawdd | Penodi Swyddog am 18 mis i baratoi cynllun gweithredu a rhoi prosiectau ar waith | 2021-22 | | Niwtral |
| Prosiect Monitro ERAMP | Prosiect Monitro Tirlun Cymru gyfan LIC | Yn dechrau 2020 Cyfarfod BBNP mis Tachwedd | | +positif |

| Parhad ar Ddiweddariad ar Raglen Gwaith i’r Dyfodol Mawrth 2021 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol** | **Cynllun Rheoli Manylion/Camau Gweithredu Cyfeirnod** | **Amserlen** | **Amserlen** Heb ddechrau neu'n broblem = Coch Ar y trywydd iawn =Oren Cwblhawyd=Gwyrdd | **Cost – negyddol neu + bositif neu niwtral** |
| **Newydd** | **Camau gweithredu diweddaraf** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Sefydliadau Adran 85** | | | | |
| Llinellau Rhwydwaith Cynllunio Gofodol | Moel Hiraddug wedi’i gwblhau. Y Silff yn ôl ymlaen. Cynlluniau newydd yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd | **2021-22** | | Niwtral |
| Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol a Menter Gwella Tirlun y Grid Cenedlaethol | Swyddog AHNE yn cynrychioli 39 AHNE ar y Bwrdd Cenedlaethol 2x Cynlluniau LEI Cwm Morwinion a'r Mwynglawdd (Aros am gymeradwyaeth) | | | Niwtral |
| Tirweddau’r Dyfodol yng Nghymru LIC | **Cyfarfodydd Misol Rheolaidd 1x Swyddogion Arweiniol 1x Tîm** | | | Niwtral |
| Gwaith Trin Carthion Pontcysyllte | **Dogfen Arfarnu yn cael ei llunio Cynllun tirlunio ar gyfer ardaloedd segur i'w gweithredu** | **2021-22** | | Niwtral |
| Hafren Trannon | **Cyfarfod cychwynnol ynglŷn â chronfeydd dŵr mynydd** | | | Niwtral |
| Canllawiau Priffyrdd ar gyfer ALI | | | | |